

Ymgynghoriad 3: gweithredu’r arena
Cwestiynau ac Atebion o 20 Gorffennaf 2021

CWESTIWN		ATEB
1	Pryd fydd yr atebion i'r sesiynau blaenorol ar-lein?! Nid ymgynghoriad yw hwn o gwbl ac mae'n teimlo'n debycach i weithgaredd ticio blychau nad yw'n ticio unrhyw un o'n blychau ni!	Bydd yr holl gwestiynau a godwyd yn ystod y gyfres o dair gweminar yn cael eu hateb . Mae'r atebion hyn yn cael eu darparu gan nifer o ffynonellau ac yna mae angen eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r broses hon yn cymryd mwy o amser nag yr oeddem wedi gobeithio ac ymddiheurwn am hyn.
2	A fydd yr arena yn addas ar gyfer arddangosfeydd? Mae wastad wedi bod angen hyn ar Gaerdydd.	Er nad yw wedi'i chynllunio'n benodol i wneud hynny, gellid defnyddio'r arena i gynnal arddangosfeydd bach dros dro.
3	Sut y bydd annog pobl i 'ddod yn gynnar ac aros yn hwyr' yn cael ei reoli i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol neu sŵn ac ati sy'n effeithio ar breswylwyr?	Bydd gennym gynllun gweithredu a rheoli cynhwysfawr y cytunir arno gyda'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth i sicrhau ein bod yn symud ymwelwyr yn brydlon, yn dawel ac yn ddiogel i ffwrdd o'r ardal gyfagos. Drwy annog ymwelwyr i gyrraedd yn gynnar, byddant yn naturiol yn cyrraedd ychydig ar y tro a fydd o bosibl yn lleihau torfeydd a thagfeydd.
4	Mae Live Nation wedi bod yn ddarparwr yng Nghaerdydd ers 25 mlynedd. Pam nad yw’r digwyddiadau a’r gwyliau hyn yn digwydd nawr? Mae’n ymwneud â mwy nag adeilad yn unig.	Nid yw'r Motorpoint fel lleoliad yn addas ar gyfer yr ystod o weithgareddau y bydd yr arena newydd yn gallu eu hyrwyddo.
5	Byddai'r manteision hyn y cyfeiriwyd atynt, o ran swyddi a manteision economaidd eraill, yn digwydd ni waeth ble bydd yr arena yn cael ei hadeiladu. Does dim rhaid ei gwasgu i mewn i ardal breswyl. Sut bydd trigolion ger yr arena yn elwa ac nid dim ond o dan anfantais o fod ar safle adeiladu am ddwy flynedd ac yna ag arena swnllyd ar garreg eu drws?	Dangoswyd manteision economaidd arena newydd ar draws nifer o brosiectau. Mae'r ardal leol yn elwa ar swyddi newydd a gweithgarwch economaidd. Dylid nodi bod y safle hwn wedi'i ddewis gan y Cyngor fel rhan allweddol o adfywiad ehangach a fydd yn dod â manteision i breswylwyr o ran amwynder a chyflogaeth.
6	Pa mor bell i ffwrdd o'r arena y bydd y stiwardiaid yn cael eu lleoli?	Bydd Gweithredwr yr Arena a'r Cyngor yn cytuno ar gynllun gweithredu digwyddiadau a fydd yn sefydlu cyfrifoldebau clir ar gyfer yr ardaloedd cyhoeddus y tu allan i'r arena. Fel Gweithredwr yr Arena mae gennym ddyletswydd gofal i reoli’r ardal o fewn ac o amgylch yr arena ynghyd â'r llwybrau mynediad allweddol.
7	Allwn ni gael rhagor o fanylion ynghylch 'rydym yn gweithio gyda'r Cyngor i reoli parcio a chyfyngu parcio i breswylwyr'? Mae hyn yn bryder mawr i drigolion.	Y Cyngor sy’n gyfrifol am yr holl fesurau a rheolaethau parcio. Byddwn yn parhau i lobïo ac annog y Cyngor yn gryf i fynd i'r afael â hyn.
8	Gyda'r arena mor agos at eiddo preswyl, mae llawer o breswylwyr yn pryderu am bethau fel ymddygiad gwrthgymdeithasol (wrth i bobl adael sioeau a digwyddiadau), taflu sbwriel, parcio (h.y. pobl sy'n chwilio am barcio am ddim y tu allan i'n heiddo), y tu hwnt i’r ardal gyfagos â’r arena. Hoffem wybod mwy o fanylion am ba gamau sy’n cael eu cymryd i liniaru'r effaith negyddol? A fyddwch chi’n ystyried barn a phryderon (a syniadau) preswylwyr? A oes trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Cyngor ynglŷn â hyn?	Byddwn yn sefydlu fforwm preswylwyr fel y gallwn ymgysylltu a gwrando ar farn preswylwyr. Byddwn yn cytuno ar baramedrau clir gyda'r Cyngor a bydd ein cynlluniau digwyddiadau yn nodi'n glir y camau lliniaru a'r cynlluniau rheoli y cytunwyd arnynt y bydd angen eu rhoi ar waith i ddelio â sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a rheoli sŵn.
9	Mae grwpiau preswylwyr rheolaidd yn syniad da cyn belled â'u bod yn ystyrllon ac nid dim ond 'dywedwch chi, gwrandawn ni'.	Gobeithiwn y bydd y fforwm preswylwyr yn gyfrwng llwyddiannus i fynd i'r afael â phryderon.
10	Mae’n bosibl y bydd y bobl sy’n cyrraedd yr arena yn gwneud hynny yn erbyn y llif o bobl sy’n gadael, ond maen nhw’n dod yr union yr un cyfeiriad â ni. Mae’n ymddangos y bydd gennym cyfnod estynedig o dagfeydd oriau brig i gyrraedd ein cartrefi – pobl sy’n teithio ar gyfer bwyd ac ati cyn y digwyddiad, y tagfeydd oriau brig arferol a phobl sydd yn teithio i mewn i’r safle ar gyfer y digwyddiad.	Bydd yr Arena yn mynd ati i hyrwyddo dulliau trafndiaeth cynaliadwy a gweithredol ac annog pobl i beidio â defnyddio ceir wrth deithio o ganol y ddinas.
11	Sut y byddwch yn rheoli/liniaru yn erbyn y mewnlifiad o dwtiaid tocynnau, pobl yn cardota ac ati sydd bob amser yn mynd o gwmpas arena fel hyn? Bydd hyn nid yn unig yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol ond o bosibl yn arwain at breswylwyr yn teimlo'n llai diogel	Bydd yr Arena yn mabwysiadu'r dechnoleg ddiweddaraf ac rydym yn disgwyl i docynnau fod yn hollol ddigidol. Mae hyn yn lleihau'n sylweddol y cyfleoedd ar gyfer towtiaid tocynnau ac yn gwneud tocynnau'n fwy diogel. Bydd y lleoliad yn gweithio gyda'r Cyngor a'r heddlu i leihau gweithgarwch anawdurdodedig neu ddiddrwydded gerllaw’r arena.

12	Peidiwch â dweud mai eich ateb i barcio anystyriol ger yr arena yw “mae’n digwydd”?!? Rhaid datrys hyn. Parcio i breswylwyr yw'r unig ateb.	Mae Gweithredwyr yr Arena yn cefnogi cyflwyno rheolaethau parcio sy'n gysylltiedig â digwyddiadau i ddiogelu parcio preswylwyr. Mae hyn yn dod o dan gylch gwaith y Cyngor ac rydym yn gweithio gyda'r Cyngor a thrigolion i geisio dod o hyd i ganlyniad cadarnhaol.
13	Sut fyddwch chi’n rheoli’r ciwiau i fynd i mewn a sut fyddwch chi’n rheoli’r dorf yn gadael, gan ystyried bod yr arena mor agos at breswylwyr?	Bydd tîm gweithredu’r Arena yn rheoli’r mannau cyhoeddus yn uniongyrchol y tu allan i'r arena a bydd yn sicrhau bod gwesteion yn gadael yr arena’n gyflym ac yn dawel.
14	Sut fyddwch yn sicrhau na fydd y cyfan yn dod i stop ar y ffordd?	Byddwn yn hyrwyddo ac yn annog pobl i beidio â theithio i'r arena mewn car a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i drefnu bysus ychwanegol, bysus gwennol, ac opsiynau metro/trenau gwell. Bydd unrhyw un sy'n teithio o ganol y ddinas yn cael ei annog i gerdded neu feicio.
15	Mae diogelwch o ran terfysgaeth yn bryder mawr. Dangosodd y digwyddiad ym Manceinion nad oedd diogelwch yn cyrraedd y nod. Sut fyddwch chi’n sicrhau bod cwmnïau diogelwch wir yn ddiogel?	Mae diogelwch yn flaenoriaeth enfawr. Mae wedi bod wrth wraidd ein syniadau a'n dyluniad o ddechrau'r prosiect gyda mesurau lliniaru, mesurau diogelwch ac arferion gweithredu, gan gynnwys asesiadau risg llawn, yn ganolog i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae Live Nation ac OVG wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod pob ymwelydd â'r arena yn cael profiad diogel a phleserus. Rydym wedi gweithio'n agos gydag arbenigwyr diogelwch a'r Heddlu i sicrhau bod yr arena ar flaen y gad o ran arfer gorau. Bydd gan y lleoliad ddiogelwch 24 awr yn ogystal â diogelwch arbenigol ar gyfer digwyddiadau. Rydym yn llwyr gefnogi deddfwriaeth newydd o dan y Ddyletswydd Diogelu (Cyfraith Martyn) a byddwn yn gweithredu y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol.
16	Ydych chi'n mynd i gyhoeddi canlyniadau eich arolwg ar-lein?	Byddwn. Rydym yn gadael yr arolwg ar agor ychydig yn hwy. Ar ôl i'r arolwg gau, bydd y canlyniadau'n cael eu coladu a byddant ar gael i'r cyhoedd ar wefan https://glanfariweryddcaerdydd.co.uk/
17	Allwch chi roi enghraifft arall i ni o ble mae arena o'r raddfa hon wedi'i hadeiladu mor agos at dai preswyl?	Mae arenâu a stadia yn cael eu lleoli fwyfwy mewn canolfannau sy'n agos at ddefnyddwyr busnes ac adeiladau preswyl eraill. Profwyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar adfywio ehangach. Nododd y Cyngor y safle fel rhan o'i uwchgynllun ar gyfer ardal ehangach Bae Caerdydd. Mae gan yr O2, First Direct a Coop Live eiddo preswyl yn agos.
18	Ydych chi wedi anghofio y bydd preswylwyr yn byw llai na 100 metr o'r safle hwn?	Dewisodd a nododd y Cyngor fod y safle'n addas ar gyfer datblygu arena. Mae'n ymddangos bod dyluniad yr arena yn ystyriol o'r eiddo preswyl a bydd yn cael triniaeth acwstig lawn, byddwn yn rheoli'r rhan fwyaf o westeion i ffwrdd o eiddo preswyl ac mae wedi'i chynllunio i uchder is yn agos at eiddo preswyl.
19	Bydd hyn i gyd yr ydych chi wedi'i ddisgrifio yn cael effaith andwyol ar drigolion lleol. Beth yw eich barn ar hyn?	Rydym wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i gynnal trafodaeth reolaidd gyda phreswylwyr i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi. Mae'r Cyngor yn credu y bydd yr uwchgynllun ehangach yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion a'r ardal leol.
20	Nid yw pobl leol am gael y swyddi rydych chi'n eu cynnig, ydych chi wedi gwneud eich gwaith cartref?	Ar ôl ei gwblhau, bydd yr uwchgynllun yn darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd sylweddol ar draws ystod eang o sectorau, nid dim ond y diwydiant gwasanaethau. Yn ogystal, bydd yr uwchgynllun yn cymryd rhyw 7 i 8 mlynedd i'w gyflawni a bydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ym mhob rhan o'r diwydiant adeiladu yn ystod y cyfnod hwnnw.
21	Dim ond 10% o bobl sy'n mynychu digwyddiadau sy'n aros yn lleol?	Byddem yn disgwyl i ymwelwyr i ddigwyddiadau yn yr arena fod yn drigolion Caerdydd, ond hefyd o bob rhan o Gymru a rhanbarth ehangach de-orllewin Lloegr. Ceir tystiolaeth dda hefyd gan farchnadoedd eraill bod ymwelwyr domestig a rhyngwladol yn mynd i ddigwyddiadau a gall hyn fod yn sbardun ar gyfer ymweld â rhanbarth.
22	Allwch chi ddangos tystiolaeth i ni o'ch honiadau os gwelwch yn dda?	Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r dadansoddiad cefndir i fudd economaidd yr Arena newydd i'r ardal leol a'r ddinas ar wefan y cynllun maes o law.
23	Rhagweld? Beth am warantu?	Fel y mae'r 18 mis diwethaf wedi dangos i ni, ychydig iawn o bethau mewn bywyd sy'n sicr.

24	Pam rydych chi’n dibynnu ar y Cyngor i ddatblygu gan eu bod yn amlwg wedi methu ers adeiladu Glanfa’r Iwerydd i gychwyn...?	Mae cam datblygu cyntaf yr arena a’r gwesty yn cael ei gyflawni gan gonsortiwm Live Nation, Oak View Group a Robertson Property Limited. Dewisodd Cyngor Caerdydd, fel y tirfeddiannwr, ei bartneriaid yn dilyn proses dendro ledled Ewrop ac mae'r partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni.
25	Datblygu rhwydweithiau trafnidiaeth....	Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor ac yn gwbl gefnogol i ddatblygu rhwydweithiau trafnidiaeth a gwell darpariaeth trafnidiaeth llesol a chyhoeddus.
26	Mae’n ddrwg ‘da fi ond nid yw arena Leeds na’r O2 mor agos at dai â beth fydd hon!	
27	Dydych chi ddim wedi gweithio gyda ni cyn belled!	Mae'r gyfres o weminarau yn gam cyntaf yn y broses ymgynghori. Bydd digwyddiadau lleol pellach yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf, pan fyddwn yn gofyn am fewnbwn preswylwyr i ddyluniad y cynllun, cyn cyflwyno cais cynllunio. Bydd manylion y digwyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar https://glanfariweryddcaerdydd.co.uk/
28	Nid yw Arena Leeds yn agos o gwbl at lety preswyl, oni bai eich bod yn cynnwys llety i fyfyrwyr. Nid oedd y bachan yn dweud y gwir wrthym.	Rydym yn ystyried llety myfyrwyr fel llety preswyl.
29	Nid yw arena O2 unman yn agos at dai preswyl presennol.	Nodwyd
30	Pam nad yw’r Cyngor yma i ateb cwestiynau?	Canolbwyntiodd ein trydydd gweminar ar y gwaith o ddatblygu a gweithredu cam adeiladu’r arena a’r gwesty o’r uwchgynllun. Live Nation a Oak View Group yw'r prif gwmnïau yn y maes hwn ac maent yn y sefyllfa orau i ateb cwestiynau gweithredol.
31	Rwy’n byw mewn fflat drws nesaf i’r arena (ar Heol Hemingway) a byddaf yn wynebu’r sgwâr agored mawr yn uniongyrchol. Rwy'n pryderu am sŵn, yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ôl ei gwblhau yn y sgwâr hwn (rwy'n gweld eich bod wedi cymryd camau i gadw’r sŵn y tu fewn i’r arena ei hun, ac rwy'n gwerthfawrogi hynny). Fel y nodwyd yn eich cyflwyniad diwethaf, mae'n siŵr y bydd llawer iawn o bobl yn casglu yn y sgwâr yn naturiol, mewn gwahanol gyflyrau meddwol/aflonyddu ac ar wahanol adegau o’r dydd a’r nos. Byddwn wrth fy modd yn cefnogi eich prosiect: 1. Am ba hyd y bydd disgwyl i’r cyfnod adeiladu bara, o’r dechrau i’r diwedd? 2. Pa gamau lliniaru sŵn yr ydych yn eu hystyried ar gyfer y sgwâr agored y tu allan i'r adeiladau preswyl cyfagos? Un opsiwn y byddwn i'n agored i'w glywed yw’r posibilrwydd o gael cyfraniad gennych tuag at dalu am osod ffenestri gwrth-sain newydd i breswylwyr yn lle eu ffenestri presennol, fel https://www.hushsoundproofing.co.uk/acousticglass.html neu https://thesoundproofwindows.co.uk/ Beth y’ch chi’n ei feddwl?	Disgwyliwn i'r cyfnod adeiladu bara ychydig o dan dair blynedd. Mae ein dyluniad a'n stiwardio ar gyfer yr ardal hon yn ceisio cadw llif y bobl i symud er mwyn atal torfeydd rhag ymgasglu. Rydym hefyd yn awyddus i gyflwyno byffer tirlunio eang i leddfu'r effaith ar drigolion lleol ymhellach. Ar hyn o bryd credwn y bydd y mesurau a fydd gennym ar waith yn lliniaru'r angen am y math o ffenestri a awgrymwch.
32	Mae'n debyg bod y llwybr i gerddwyr rhwng yr arena a'r orsaf drenau, ar hyd y sgwâr palmantog, yn mynd yn uniongyrchol heibio i ffenestr fy ystafell wely...	Mae'r uwchgynllun yn cynnig cau Heol Hemingway i draffig trwodd, a fydd dileu sŵn traffig. Bydd llif cerddwyr yn ystod digwyddiadau yn cael eu stiwardio'n helaeth i leihau'r effaith ar drigolion lleol.
33	(Ar Heol Hemingway ar hyn o bryd)	

34	Ymddiheuriadau am hyd y cwestiwn hwn.... Mae Cymru'n enwog am fod yn Wlad y Gân, ac eto nid oes dim i ymwelwyr â'r ddinas ei ddarganfod a'u hysbysu o hanes cerddorol diwylliannol a chyfoes unigryw Cymru. Credaf fod gennych gyfle gwych i ddatblygu gofod pwrpasol a fyddai'n atyniad deniadol i dwristiaid a fyddai'n creu refeniw ychwanegol i'r arena. Os ydych am i bobl ddod yn gynnar ac aros yn hwyr yna byddai hwn yn gyfle delfrydol i gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwneud y gorau o enw da'r arena fel cyrchfan boblogaidd, dydd a nos. Byddai hefyd yn gyswllt gwirioneddol rhwng y cymunedau lleol a'r arena, yn ogystal ag yn gyfle addysgol i blant lleol. Ydych chi'n credu y byddai rhywbeth fel hyn yn bosibl?	Fel rhan o'r sgwrs ehangach ar gyfer yr ardal, rydym yn edrych ar ffyrdd o gydweithio â chyfleusterau celfyddydol a diwylliannol presennol fel Canolfan y Mileniwm a'r Amgueddfa arfaethedig ac rydym yn awyddus i ddathlu treftadaeth gyfoethog Caerdydd a Chymru drwy ddylunio, deunyddiau a gorffeniadau'r adeilad newydd. Mae potensial hefyd i guradu ac arddangos celf a chrefft yn yr Arena, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn sicr yn ymchwilio ymhellach iddo.
35	Beth yw'r cynlluniau ar gyfer Arena Motorpoint Caerdydd?	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau pendant ar gyfer y Motorpoint, ar ôl cwblhau'r Arena newydd.
36	Diolch!	Diolch.
37	Sut ydych chi'n meddwl y bydd yr Arena yn ffitio ac yn cystadlu â'r Arena arfaethedig ym Mryste?	Mae Caerdydd yn ddinas unigryw mewn gwlad unigryw a bydd yr Arena newydd yn cael ei hadeiladu i'r safon a'r fanyleb sydd ei hangen ar artistiaid. Mae gennym hanes hir o gyflwyno sioeau i Gaerdydd yn y Motorpoint, Stadiwm Principality, Castell Caerdydd a llawer o leoliadau eraill, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y lleoliad newydd wrth i'r capasiti ychwanegol roi mwy o ddewis i gynnal y sioeau mwy o faint. Rydym yn ffynnu ar gystadleuaeth a byddwn yn parhau i berfformio'n wych ar bob lefel i ddenu'r perfformiadau a'r cynulleidfaoedd i Gaerdydd.
38	Beth fydd y ffin ar gyfer rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol, h.y. er mwyn sicrhau nad effeithir ar eich cymdogion fel Cwr y Dŵr, ac nid yw'r mater yn cael ei symud ymlaen i fod yn broblem rhywun arall?	Bydd Gweithredwr yr Arena a'r Cyngor yn cytuno ar gynllun gweithredu digwyddiadau a fydd yn sefydlu cyfrifoldebau clir ar gyfer yr ardaloedd cyhoeddus y tu allan i'r arena. Fel Gweithredwr yr Arena mae gennym ddyletswydd gofal i reoli'r ardal o fewn ac o amgylch yr arena ynghyd â'r llwybrau mynediad allweddol.
39	Nid yw'r dwyrain i ffwrdd o breswylfeydd, dyna lle mae Cwr y Dŵr!!!	Bydd mynedfa/allanfa gyhoeddus yr Arena yn cael eu rheoli ar yr ochrau deheuol a dwyreiniol. Pan fydd ymwelwyr yn gadael yr adeilad bydd llwybrau wedi'u stiwardio yn cyfeirio ymwelwyr i ffwrdd o ardaloedd preswyl lle bo hynny'n bosibl.
40	Ni fydd y mynediad i gerbydau at y maes parcio aml-lawr newydd yn osgoi'r preswylfeydd ar Ffordd y Galiwn, a gallai hynny olygu y bydd preswylwyr yn sownd yno yn ystod tagfeydd yr oriau brig!	Mae ein peirianwyr priffyrdd/trafnidiaeth yn parhau i ddatblygu manylion yr uwchgynllun. Byddwn yn edrych ar y mater a godwch.
41	Pryd fydd y Metro yn agor? Cyn agor yr arena rwy'n cymryd?	Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd ac fe'n cynghorir y bydd cynlluniau'r Metro ar gyfer Bae Caerdydd ar waith yn 2024. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cynnwys ym Phapur Gwyn Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd sydd ar gael ar wefan y Cyngor.
42	Byddai cerflun o Shirley Bassey yn wych :)	Fel rhan o'r uwchgynllun, byddwn yn datblygu strategaeth ar gyfer cynnwys celfyddyd gyhoeddus o fewn ardal Glanfa'r Iwerydd. Byddwn yn ystyried eich awgrym.
43	Cyfnod cyffrous... methu aros i'r Arena ddod	Diolch.

44	Bydd pobl yn edrych am leoedd i barcio am ddim, ni waeth faint fyddwch chi’n eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu feysydd parcio. Mae hyn yn bryder mawr. Mae cymudwyr (a thrigolion heb le parcio eu hunain) eisoes yn parcio'n anystyriol - nid yw'r sefyllfa ond yn mynd i waethygu.	Mae’r cynigion datblygu yn ceisio darparu maes parcio aml-lawr newydd yn ogystal â chynyddu capasiti maes parcio Cei’r Fôr-forwyn, sydd dim ond taith gerdded fer i ffwrdd. Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisiâu y mae'n rhaid i ni weithio gyda nhw i gydbwyso'r ddarpariaeth ar y safle ac annog defnydd o safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig presennol sydd ar waith i ddiogelu trigolion lleol a sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei weithredu. Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gorfodaeth hon a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod gorfodaeth addas yn cael ei rhoi ar waith i annog a gorfodi. Bydd hygyrchedd Bae Caerdydd yn y dyfodol yn newid sylweddol o'r hyn sydd ar gael heddiw gyda darpariaeth y Metro, y Cledrau Croesi a gwelliannau i'r gwasanaeth bysus a rheilffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Drafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd.
45	Mae parcio anystyriol yng nghanol y ddinas yn wahanol iawn i barcio y tu allan i'n tai - gan rwystro mynediad brys a phalmentydd. (Gofynnodd [...] "Bydd pobl yn chwilio am leoedd i barcio am ddim, ni waeth faint rydych chi'n eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu feysydd parcio. Mae hyn yn bryder mawr. Mae cymudwyr (a thrigolion heb le parcio eu hunain) eisoes yn parcio'n anystyriol - mae'r sefyllfa ond yn mynd i waethygu.")	Cynigir darparu maes parcio aml-lawr newydd fel rhan o’r cynigion datblygu. Yn yr un modd mae cynigion i gynyddu capasiti maes parcio Cei’r Fôr-forwyn sydd dim ond taith gerdded fer i ffwrdd. Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisiâu y mae'n rhaid i ni weithio gyda nhw i gydbwyso'r ddarpariaeth ar y safle ac annog defnydd o safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig presennol sydd ar waith i ddiogelu trigolion lleol a sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei weithredu. Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gorfodaeth hon a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod gorfodaeth addas yn cael ei rhoi ar waith i annog a gorfodi. Bydd hygyrchedd Bae Caerdydd yn y dyfodol yn newid sylweddol o'r hyn sydd ar gael heddiw gyda darpariaeth y Metro, y Cledrau Croesi a gwelliannau i'r gwasanaeth bysus a rheilffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Drafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd
46	Unrhyw newyddion am y model?	Rydym wrthi’n gweithio ar gynhyrchu model, a fydd ar gael i’w weld fel rhan o ymgynghoriad arfaethedig yn yr ardal leol yn y dyfodol.
47	Diolch. Gofynnwch i dîm cyfieithu’r Cyngor brawf-ddarllen y sleidiau ;-)	Diolch.